

Sefyllfa adar yng NGHYMRU 5



Y penawdau

1. Yn y flwyddyn 2006 cytunwyd ar ddiweddariad o'r targedau ar gyfer Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ac ychwanegwyd rhywogaethau newydd. Mae'r rhestr o rywogaethau o Brif Bwysigrwydd Bioamrywiaeth wedi cynyddu i 51 rhywogaeth.
2. Rydym yn adrodd ar arolygon rhywogaethau sy'n dangos bod **ehedydd y coed** wedi nythu yng Nghymru am y tro cyntaf ers dechrau'r 1980au a chynnydd cyffrous yn **nhelorion Dartford** o ddim un yn 1990 i 73 tiriogaeth yn 2006. Ar yr ochr negyddol, roedd y **gylfinir** wedi prinhaus o 81% ledled eu cynefin yng Nghymru rhwng 1993 a 2006 a'r **cwtiad aur** o 88% rhwng 1982 a 2007 yn eu cadarnle.
3. Mae **Dangosydd Adar Gwyllt** Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei ddiweddarau i 2006. Mae'r mynegrif wedi gostwng ers 2005 ac yn gorwedd bellach ychydig o ganrannau uwchben y flwyddyn baslin sef 1994. Gall y sefydlogrwydd ymddangosiadol hwn guddio newidiadau pwysig o fewn rhywogaethau unigol a grwpiau o rywogaethau, gyda chynnydd mewn cyffredinolwyr yn gwrthbwysu prinhad mewn adar arbenigol, y mae eu hadnoddau'n anoddach dod o hyd iddynt.
4. Gostyngodd y mynegai o adar eang eu dosbarthiad sy'n magu ar gynefinoedd a amaethir o'i gymharu â ffigur y llynedd ac erbyn hyn mae ar ei bwynt isaf ers 1994 pan ddechreuodd yr arolwg.
5. Dengys Arolwg Adar Sy'n Nythu (Breeding Bird Survey - y BBS) 2006 gynnydd sylweddol mewn 18 rhywogaeth a phrinhad sylweddol mewn 9 rhywogaeth ers 1994, allan o 52 rhywogaeth a gynrychiolir yn y cynllun. Y tair prif rywogaeth a oedd yn cynyddu ac yn prinhaus oedd:

Cynnydd: **clochdar cerrig** (+287%), **aderyn y to** (+107%) a **gwennol y bondo** (+95%)

Prinhad: **drudwen** (-51%), **bras melyn** (-44%) a **choch y berllan** (-42%).



Cynnwys



David Klaer (spb-images.com)

Cyflwyniad	4
Gweithredu Bioamrywiaeth dros Adar Cymru	6
Targedau wedi eu diweddarau	6
Dangosydd Adar Gwylt	10
Newyddion adar	12
Rhydwy'r ac adar dŵr sy'n gaeafu	12
Gŵydd dalcen-wen	12
Gylfinir	12
Rhybudd safleoedd	13
Nifer a llwyddiant nythu adar môr	14
Aderyn drycin y graig	14
Gwylan goesddu	14
Gwylog	15
Arolwg Adar Sy'n Nythu (y BBS)	16
I fyny ac i lawr neu'n aros yr un fath?	16
Cog	17
Arolygon rhywogaethau	18
Arolwg y gylfinir 2006	18
Arolwg y cwtiad aur 2007	18
Arolwg ehedydd y coed 2006	19
Arolwg telor Dartford 2006	19
Ymchwil diweddar	20
Troellwr mawr <i>gall planhigfeydd masnachol fod yn dda</i>	20
Pibydd coesgoch <i>adar digartref o Fae Caerdydd yn fwy tebygol o farw</i>	21
Môr-hwyaden ddu <i>efallai bod ffermydd gwynt oddi ar y lan yn lleihau eu gallu i oroesi'r gaeaf</i>	22
Hugan <i>tracio gyda lloeren yn datgelu manau bwydo</i>	23
<i>Gwalch y pysgod mae'n well gan adar Glaslyn fwyd môr ...</i>	24
Edrych ymlaen	25
Tudalen ganol – Angen gwybod mwy am arolygon adar yng Nghymru?	26

Drwy gydol yr adroddiad hwn, nodir rhywogaethau mewn codau lliw yn ôl eu statws cadwraeth, fel y cyhoeddwyd yn *Statws poblogaeth adar yng Nghymru: adar o bryder cadwraethol*. Mae'r 27 rhywogaeth a nodir fel y rhai sydd o'r pryder cadwraethol mwyaf ar y rhestr **goch**, mae'r 69 rhywogaeth o bryder canolog ar y rhestr **ambr** ac mae'r 125 rhywogaeth sy'n peri'r pryder lleiaf ar y rhestr **werdd**. Nid oedd yr asesiad hwn yn ymdrin â rhywogaethau anffrodorol na phrin iawn, felly nid yw'r rhywogaethau hynny wedi derbyn cod lliw.



Cnocell fraith fwyaf

David Klaer (rspb-images.com)



Cyflwyniad



Llurs

Dyma burned adroddiad **Sefyllfa Adar yng Nghymru** ac mae diddordeb yn yr adroddiad wedi cynyddu bob blwyddyn. Ei amcan yw darparu gwybodaeth hygrych ar statws, tueddiadau a materion sy'n effeithio ar adar Cymru. Yn dilyn atborth o adroddiadau cynharach, rydym wedi gwella'r fformat i gynnwys yr holl wybodaeth sydd ar gael hyd at fis Medi 2007 ac wedi ychwanegu adran ar y gwaith sy'n cael ei gynllunio ar gyfer 2008.

Cynhyrchir *Sefyllfa Adar yng Nghymru 5* mewn partneriaeth gan bedwar corff anllywodraethol – y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (yr RSPB),

Ymddiriedolaeth Adara Prydain (y BTO), Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir (WWT) a Chymdeithas Adara Cymru (WOS) – ac Asiantaeth Gadwraeth Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC).

Mae monitro adar Cymru'n cynnwys partneriaeth o asiantaethau Llywodraeth y Cynulliad, cyrff anlywodraethol, noddwyr ac adarwyr annibynnol, yn cynnwys:

Ymddiriedolaeth Adara Prydain (BTO), Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), Cofnodwyr Adar Sirol, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, y

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), Swyddogion Bioamrywiaeth Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB Cymru, Dŵr Hafren Trent, Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru, Ymddiriedolaeth Farcutiaid Cymru, yr Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir ac Ymddiriedolaethau Byd Natur Cymru.

At bwrpas llyfryddol, dylid cyfeirio at yr adroddiad hwn fel Johnstone IG, Bladwell S, Noble DG (2008). *Sefyllfa adar yng Nghymru 5*. RSPB Cymru, Caerdydd.



Steve Round (rspb-images.com)

ynlluniau Gweithredu a Chyhoeddiadau gyfer a'r Gyrru



Rhostogod gynffonfraith

Sue Tranter (rspb-images.com)

Yn 2006 a 2007 cafwyd adolygiadau sylweddol o'r broses Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru a'r DU. Ymgwymerwyd â dau adolygiad pwysig ar dargedau rhywogaethau a chynefin a'r rhestr o rywogaethau yr ystyrir eu bod yn rhywogaethau â Blaenoriaeth (DU) ac o Brif Bwysigrwydd Bioamrywiaeth (Cymru). Mae'r adran hon yn adrodd ar yr adolygiadau hyn a'r gweithredu bioamrywiaeth sydd ar y gweill neu a gwblhawyd a hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar statws rhai o'r rhywogaethau hyn.

Y targedau rhywogaethau Bioamrywiaeth diweddaraf

Yn 2005, adolygwyd y targedau cynllun a oedd mewn grym gan brif bartneriaid a grwpiau llywio'r DU ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Cynefin (CGC) a Chynlluniau Gweithredu Rhywogaethau (CGRh). Y bwriad oedd diweddarau'r wybodaeth am anghenion rhywogaethau, safoni fwyfwy ar gynlluniau a chadarnhau, dileu neu ail-osod targedau gyda chyfyngiad amser i sicrhau eu perthnasedd parhaol. Cyhoeddwyd y targedau adolygedig yn 2006 ac am y tro cyntaf nodwyd targedau ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd yng Nghymru.

Y cam nesaf, eisoes ar y gweill erbyn diwedd 2007, fydd gwahanu'r targedau Cymreig i ardaloedd Awdurdodau Lleol. Y canlyniad net fydd cyfres ymlynol o dargedau lle bydd swm y targedau ar lefel lleol (wedi eu cynnwys mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol – CGBLI) yn gwireddu'r targed ar lefel sirol.

Yng Nghymru, mae 24 o bartneriaethau bioamrywiaeth lleol gyda gwirfoddolwyr brwdfrydig, cofnodwyr sirol, cynrychiolwyr y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn cynnwys staff Awdurdodau Lleol a chyrrff anllywodraethol, yn gweithio i wireddu amcanion a thargedau CGBLI. Bydd llwyddiant y gweithredu a gynlluniwyd ac a roir ar waith ar lefel y DU, Cymru ac Awdurdodau Unedol yn dibynnu ar wybodaeth ecolegol, adnoddau a brwdfrydedd ac ymrwymiad y sawl sy'n cymryd rhan ar bob un o'r tair lefel.

Yng Nghymru, mae gweithrediadau o fewn CGRh ar gyfer rhai adar wedi eu cwblhau neu ar fin cael eu cwblhau. Er enghraifft, sicrhawyd gweithred 4.1 (Sefydli baslin o faint poblogaeth drwy arolwg sy'n benodol i'r rhywogaeth) o CGRh y **gylfinir** yn 2006 drwy arolwg gan yr RSPB/CCGC. Bydd Gweithred 5.2.1 o CGRh y **frân goesgoch** (Parhau

i warchod safleoedd nythu presennol, safleoedd clwydo a lleoliadau bwydo pwysig drwy ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol priodol) yn debygol o gael ei chwblhau mewn pryd fel rhan o adolygiad Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Cwblhawyd Gweithred 4.1 (Sefydli baslin o faint poblogaeth) y **cwtiad aur** gan waith arolwg yn 2007, unwaith eto drwy arolwg gan yr RSPB/CCGC ac mae'n debygol y bydd y targed poblogaeth o 270 o geiliogod y rugiar ddu o fewn y cynllun gweithredu ar gyfer y rhywogaeth honno yn cael ei wireddu o fewn yr amser.

Dengys yr enghreifftiau hyn yr ystod o weithrediadau sy'n angenrheidiol i wireddu'r amcanion. Roedd yn rhaid wrth arian penodol i'r project, cydlynu gan brif bartneriaid CGB a chefnogaeth gan bartneriaethau lleol neu ledled Cymru. Bydd angen y math hwn o weithredu i sicrhau bod llawer mwy o'r targedau i ddod â phrinhad poblogaethau o adar i ben a'i wrthdroi yn cael eu gwireddu.

Rhywogaethau o Brif Bwysigrwydd Bioamrywiaeth

Yn 2007, mabwysiadwyd rhestr adolygedig o CGB y DU o rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth gan Lywodraethau pedair gweinyddiaeth y DU. Mae'r rhestr y DU hon hefyd yn adnabod rhywogaethau a chynefinoedd sy'n berthnasol i bob gwlad. Seiliwyd yr asesiad hwn ar gyfres o feini prawf gwrthrychol ac, o ran adar, ar lefel tacsonomig hil (isrywogaeth). Mae hyn yn newydd o ran gosod blaenoriaeth cadwraeth yn y DU, sydd yn draddodiadol wedi defnyddio lefel y rhywogaeth. Mae hyn yn cydnabod amrywiaeth o fewn rhywogaethau ac yn caniatáu targedu ymdrechion cadwraethol ar y lefel enetaidd ac ecolegol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd gwarchod hiliau brodorol y DU, rhai ohonynt yn wynebu bygythiadau difrifol, er enghraifft, fe all yr hil frodorol y **gnocell fraith leiaf**, sy'n byw yng Nghymru, wynebu difodiant os bydd yn parhau i brinhau.

Defnyddiwyd pedair maen brawf gwyddonol i ddeddfol rhywogaethau/hiliau CGB y DU:

- 1 bygythiad rhyngwladol (hy risg o ddiffannu o Ewrop)
- 2 cyfrifoldeb rhyngwladol (25% o boblogaeth Ewrop) + prinhad o 25% o leiaf yn y DU
- 3 prinhad amlwg (dros 50% yn ystod y 25 mlynedd diwethaf) yn y DU
- 4 rhesymau dilys eraill o ran cymhwys yn cynnwys cynefin cyfyngedig iawn a diffyg adferiad o'r prinhad a arweiniodd at eu cynnwys ar restr CGB y DU ym 1995.

Wrth ddefnyddio'r dull hwn a'r meini prawf asesiad sy'n benodol i Gymru, defnyddiwyd rhestr CGB newydd y DU i ddatblygu rhestr o rywogaethau o brif bwysigrwydd er cadwraeth amrywiaeth biolegol yng Nghymru o dan adran 42 o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006. Mabwysiadwyd hon ac fe'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008, gan ddiweddarau rhestr flaenorol y cyfeirir ati'n aml fel rhestr adran 74.

Mae 51 o adar ar restr newydd Cymru o rywogaethau o brif bwysigrwydd bioamrywiaeth yn cynnwys wyth rhywogaeth na nodwyd fel blaenoriaeth ar restr CGB y DU.

Roedd tair o'r rhywogaethau yma, y **frân goesgoch**, y **cwtiad aur** a'r **boda tinwyn**, wedi eu hadnabod fel rhywogaethau arbennig o bwysig yng Nghymru o dan adran 74 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000. Ychwanegwyd pum rhywogaeth arall oherwydd eu statws cadwraeth yng Nghymru gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir uchod – y **cwtiad torchog** (gaeaf), y **rhostog gynffonfraith** (gaeaf), y **cudyll coch**, yr **wylan benddu** a'r **gwybedog brith**.

I'r gwrthwyneb, ni restrwyd chwe rhywogaeth a nodwyd fel rhai â blaenoriaeth ar lefel y DU ac a gynhwyswyd ar restr CGB y DU (sy'n berthnasol i Gymru) fel prif rywogaethau bioamrywiaeth yng Nghymru oherwydd eu statws ecolegol a/neu gadwraethol. Maent yn cael eu hystyried mor brin yng Nghymru fel na fyddai clustnodi adnoddau ar gyfer eu cadwraeth yn ymarferol o fewn oes yr adolygiad presennol. Y rhain yw **sgiwen y Gogledd**, y **trochydd gyddfddu**, **telor y gwerni**, y **llydandrod gyddfgoch**, yr **hwyaden benddu** a'r **pengam**.



Boda tinwyn

ynlluniau Gweithre u ioa rywiaeth ros ar y ru



Brân goesgoch

Ben Hall (rspb-images.com)



Grugiar goch


David Norton (rspb-images.com)

Rhywogaethau Adar o Brif Bwysigrwydd Bioamrywiaeth yng Nghymru (2008)

Enw	CGB y DU	Meini prawf			
		1	2	3	4
Telor y dŵr	O	✓		✓	✓
Aderyn drycin Môr y Canoldir	O	✓			
Rhostog gynffonfraith (gaeaf)	N		✓		
Alarch Bewick (y twndra)	O	✓		✓	
Aderyn y bwn	O			✓	
Grugiar ddu	O	✓	✓	✓	✓
Gwylan benddu	N	✓			
Coch y berllan	O		✓		✓
Brân goesgoch	N				✓
Môr-hwyaden ddu	O			✓	✓
Bras yr yd	O	✓	✓	✓	✓
Rhegen yr yd	O				✓
Cog	O			✓	
Gylfinir	O		✓		
Gŵydd ddu bol-tywyll	O	✓			
Llwyd y gwrych	O		✓		
Cwtiad aur	N			✓	
Troellwr bach	O			✓	
Gŵydd dalcen-wen yr Ynys Las	O	✓			
Petrisen	O	✓		✓	✓
Gylfinbraff	O			✓	
Boda tinwyn	N			✓	
Gwylan y penwaig	O		✓	✓	
Aderyn y to	O			✓	
Cudyll coch	N			✓	
Cornchwiglen	O	✓		✓	
Llinos bengoch	O			✓	
Cnocell fraith leiaf	O	✓	✓	✓	
Llinos	O				✓
Titw'r gwerni	O		✓		
Troellwr mawr	O				✓
Gwybedog brith	N			✓	
Grugiar goch	O		✓		
Cigydd cefngoch	O			✓	✓
Bras y cyrs	O				✓
Mwyalchen y mynydd	O			✓	
Cwtiad torchog (gaeaf)	N			✓	
Môr-wennol wridog	O			✓	✓
Ehedydd	O			✓	
Bronfraith	O		✓		✓
Gwybedog fannog	O			✓	✓
Drudwen	O			✓	
Corhedydd y coed	O			✓	
Golfan y mynydd	O			✓	✓
Turtur	O			✓	✓
Llinos y mynydd	O		✓		
Titw'r helyg	O	✓	✓	✓	
Telor y coed	O			✓	
Ehedydd y coed	O				✓
Siglen felen	O		✓	✓	
Bras melyn	O			✓	

Adroddiad monitro

Mae'r mwyafrif o adar a nodwyd fel Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth yng Nghymru ar y rhestr goch, ond mae'r rhan fwyaf o'r adar sy'n magu ac sy'n eang eu dosbarthiad, yr adroddir arnynt gan yr Arolwg Adar sy'n Nythu (y BBS), ar y rhestr werdd. Y rheswm am hyn yw, er bod llawer o'r adar ar y rhestr goch, fel y **gornchwiglen**, y **betrisen**, **golfan y mynydd** a'r **durtur**, yn cael eu cofnodi yn ystod ychydig o ymweliadau â sgwariau'r Arolwg Adar sy'n Nythu, mae'r cofnodion hynny'n rhy brin i'w cyfrifo ar gyfer mynegai amllder unigol. Nid oes monitro ffurfiol o dueddiadau amllder tymor byr ar gyfer yr adar hyn sy'n magu.



Statws y **Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth yng Nghymru (2003–2007)**. Mae'r data tueddiadau'n trafod y cyfnod mwyaf diweddar sydd ar gael, ac yn cael eu mynegi yn ôl amllder lle bod hynny'n bosibl.

Rhywogaeth	Tueddiad %	Blynyddoedd	Dull monitro	Maint poblogaeth	Blwyddyn	Dull monitro
Telwr y dŵr	Anhysbys	–	–	Anhysbys	–	–
Aderyn y bwn	-100	1968–91	8	0	2007	4
Grugiar ddu	-19	1986–2007	2	213	2007	2
Coch y berllan	-42	1994–2006	3	Anhysbys	–	–
Brân coesgoch	48	1992–2002	1	262	2002	1
Môr-hwyaden ddu	Anhysbys	–	–	32,500	2001-02	5
Bras yr	-57	1968–91	8	1	2007	4
Rhegen yr	-97	1968–91	8	0	2004	1
Gylfinir	-81	1993–2006	2	1,099	2006	2
Cwtiad aur	-84	1978–2007	2	36	2007	2
Petrisen	-66	1968–91	8	200-500	2002	7
Boda tinwyn	159	1988–2004	1	43	2004	1
Cornchwiglen	-77	1987–98	1	1,698	1998	1
Llinos	-7	1994–2006	3	Anhysbys	–	–
Troellwr mawr	332	1982–2004	1	269	2004	1
Bras y cyrs	-9	1968–91	8	Anhysbys	–	–
Môr-wennol wridog	-100	1986–2007	7	0	2007	6
Ehedydd	-2	1994–2006	3	Anhysbys	–	–
Bronfraith	31	1994–2006	3	Anhysbys	–	–
Gwybedog fannog	-7	1968–91	8	Anhysbys	–	–
Golfan y mynydd	-25	1968–91	8	Anhysbys	–	–
Turtur	-73	1968–91	8	1	2007	4
Bras melyn	-44	1994–2006	3	Anhysbys	–	–

Dull monitro		
1 SCARABBS (Asiantaethau	2 Arolwg Cymru	6 Monitro blynyddol llawn
Cadwraeth Statudol/Cynllun	3 Arolwg Adar yn Nythu	7 Amcangyfrif yn ôl yr wybodaeth
Blynyddol Adar yn	(y BBS)	8 Newid yn yr atlas
Nythu'r RSPB)	4 Adroddiadau adar sirol	
	5 Arolygon o'r awyr	

Crynodeb statws	
Cynnydd >50%	2
Cynnydd 0-50%	2
Prinhad 0-50%	8
Prinhad >50%	9
Anhysbys	2
Cyfanswm	23

Dangosydd adar gwyllt Cymru



Ray Kennedy (spb-images.com)

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mesur iechyd yr amgylchedd yn flynyddol, ac mae adar yn cael eu cynnwys yn hyn wrth ddefnyddio **Dangosydd Adar Gwyllt** yn seiliedig ar wahanol grwpiau o rywogaethau eang eu dosbarthiad o adar yn magu.

Mae rhan gyntaf y dangosydd hwn wedi ei ddiweddarau gan ddefnyddio data a gasglwyd yn 2006. Mae'n mesur newid mewn amllder (nifer) ystod eang o adar brodorol a arolygwyd gan y BTO/JNCC/BBS ers 1994 (Ffigur 1a)¹. Mae rhywogaethau'n cael eu cynnwys os ydynt yn cael eu cofnodi'n flynyddol mewn 20¹ neu fwy o sgwariau 1 cilometr sgwâr (felly mae'r dull hwn yn tueddu i beidio â chynnwys rhywogaethau prin). Serch hynny, mae'r arwynebedd a arolygir wedi mwy na dyblu ers 1994 o 123 i 271 o sgwariau 1 cilometr, ac mae'r dangosydd yn cynnwys rhywogaeth newydd, **telor yr hesg**, sydd wedi cyrraedd y maint sampl lleiaf hwn am y tro cyntaf eleni. O'r 59 o rywogaethau¹ sydd bellach yn cael eu cynnwys yn y dangosydd, mae 28 wedi

cynyddu ers 1994 (18 yn sylweddol) ac mae 18 wedi prnhau (9 ohonynt yn arwyddocaol yn ystadegol). Mae'r mynegai wedi lleihau ers 2005, ac mae'n gorwedd bellach ychydig o ganrannau uwchben y flwyddyn baslin sef 1994. Fodd bynnag, gall y sefydlogrwydd ymddangosiadol yma guddio newidiadau pwysig mewn rhywogaethau unigol a grwpiau o rywogaethau, gyda chynnydd yn y cyffredinolwyr, sy'n ffynnu o ganlyniad i'r defnydd tir presennol, yn gwrthbwyso prnhad mewn arbenigwyr, y mae eu hadnoddau yn fwy anodd dod o hyd iddynt.

Rhaid edrych ar ran gyntaf y dangosydd bob amser o fewn cyd-destun newid hanesyddol tymor hir. Darperir hwn gan ran 2 y dangosydd sy'n dangos newidiadau mewn cynefin (dosbarthiad daearyddol) o 1968-1971 ac o 1988-91. Mae dros hanner yr 119 o rywogaethau brodorol a gynrychiolir yn dangos crebachiad yn eu dosbarthiad dros y cyfnod hwn (ffigur 1b) a bydd canlyniadau'r gwaith arolwg presennol ar gyfer Atlas Adar y DU 2007-2011 yn ein

galluogi i ddiweddarau'r ffigur hwn o 20 mlynedd. Mae crebachu mewn dosbarthiad hefyd yn debygol o ddangos prnhad mewn amllder.

Oherwydd a) nad yw rhywogaethau prin yn cael eu cynnwys yn y dangosydd tymor byr a b) gan fod y dangosydd tymor hir yn mesur dosbarthiad yn hytrach nag amllder, dylid cofio nad yw'r **Dangosydd Adar Gwyllt** yn cynrychioli darlun cyfan o dueddiadau poblogaethau adar yng Nghymru, er ei fod yn gydran bwysig o fesur iechyd yr amgylchedd.

Adar eang eu dosbarthiad sy'n magu mewn cynefinoedd ffermdir

Dirywiodd y mynegai hwn o'i gymharu â ffigur y llynedd ac mae erbyn hyn ar ei bwynt isaf ers 1994 pan gychwynnodd yr arolwg. Dros y cyfnod hwn, mae wyth aderyn wedi cynyddu (dim ond y **llinos werdd** a'r **ysguthan** yn sylweddol) ac mae chwech wedi prnhau, gyda dros hanner y rhain yn sylweddol (**gylfinir**, **drudwen**, **bras melyn** ac, yn seiliedig ar faint sampl bach, y **cudyll coch**). Mae'r **gylfinir**, y **ddrudwen** a'r **bras melyn** yn

Brif Rywogaethau Bioamrywiaeth. Mae'r dangosydd tymor hir yn amlygu'r nifer o rywogaethau y mae eu dosbarthiad wedi crebachu, llawer ohonynt bellach yn rhy brin i'w cynnwys yng nghanlyniadau'r BBS. Er cymhariaeth gyda'r DU, dangosir y dangosydd tymor byr hefyd ar gyfer adar ffermdir yr iseldir, sy'n dangos yr un patrwm.


Adar eang eu dosbarthiad sy'n magu mewn coedlannau

Roedd adar coedlannau hefyd yn llai niferus yn 2006 o'u cymharu gyda'r flwyddyn flaenorol, gyda'r mynegai erbyn hyn fymryn yn is na lefel y baslin yn 1994. Dros y cyfnod hwn, mae naw wedi prnhau (y **coch y berllan**, **titw penddu**, **dryw eurban** a **thelor yr helyg** yn sylweddol ac, yn seiliedig ar faint sampl bach, y **gwybedog brith** a **thelor y coed**). Mae'r tri olaf o'r rhain yn ymfudwyr dros gryn bellter. Er bod amlder y **coch y berllan** wedi amrywio yn y blynyddoedd diweddar, dengys mynegai 2006 brinhad o 42% drwyddo draw ar gyfer y Prif Rywogaeth Bioamrywiaeth hon. Mae tri-aderyn-ar-dddeg wedi cynyddu (y **fwyalchen**, **telor penddu**, **titw tomos las**, **llwyd y gwrych**, **cnocell fraith fwyaf**, **titw mawr**, **delor y cnau**, **robin goch** a **bronfraith** yn sylweddol). Mae pob un heblaw'r **telor penddu** yn byw yng Nghymru drwy gydol y flwyddyn. Dengys y dangosydd tymor hir bod dosbarthiad y rhan fwyaf o adar y coedlannau yn sefydlog.

Adar eang eu dosbarthiad eraill sy'n magu


Mae rhai adar mewn grwpiau eraill hefyd yn dangos newidiadau nodedig dros y tymor byr. O'r wyth aderyn sydd wedi cynyddu ers 1994, mae'r **frân dyddyn**, **gwennol**, **gwennol y bondo**, **clochdar y cerrig** ac **aderyn y to** wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r cynnydd yn y nifer o **adar y to** yng Nghymru yn cyferbynnu â'u prinhad yn Lloegr. Prinhaodd tri aderyn, y **wennol ddu** a'r **gog** yn sylweddol.

¹ Gweler *Sefyllfa Adar yng Nghymru 2003* am fanylion dulliau monitro, dadansoddiad, y rhywogaethau a gynrychiolir a'r dull o'u dosbarthu yn ôl cynefin.
www.rspb.org.uk/ourwork/science/sotukb/sobiw



Ffigur 1a Mae rhan un o'r dangosydd adar eang eu dosbarthiad sy'n magu yng Nghymru yn fesur o sut mae niferoedd adar wedi newid ers 1994.

Ffigur 2b Mae rhan dau o'r Dangosydd Adar Gwyllt yng Nghymru yn dangos newidiadau tymor hir yn nosbarthiad daearyddol adar rhwng 1968-72 ac 1988-91.



Aderyn y to

Newyddion am adar



Gwŷydd dalcen-wen yr Ynys Las

Andy Hay (rspb-images.com)

Yn yr adran hon rydym yn adrodd ar rai uchafbwyntiau detholedig o arolygon adar yng Nghymru o 2006 a 2007 (gweler y dudalen ganol am fanylion ynglyn â sut i ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol).

Rhydwy'r ac adar dŵr sy'n gaeafu

Gwŷydd dalcen-wen


Mae dwy hil o wŷydd dalcen-wen yn gaeafu yng Nghymru. Yn nythu ar dwndra gogledd Ewrop, mae'r wŷydd dalcen-wen Ewropeaidd wedi prinhau digon i beri rhybudd WeBS tymor hir uchel yng Nghymru ac mewn mannau eraill o'r DU, oherwydd symud yn eu dosbarthiad. Awgryma tystiolaeth bod cyswllt rhwng llai o bwysau hela a chynnydd mewn porfa ddwys yn yr Iseldiroedd, wedi eu cyfuno â newid hinsawdd sy'n golygu bod y gaeafau yno'n fwy mwyn. Mae gwŷydd dalcen-wen yr Ynys Las yn rhy brin i WeBS adrodd arni, a dim ond ar un safle mae hi'n gaeafu: y Dyfi. Yn fyd-eang, fodd bynnag, mae'r hil hon hefyd yn prinhau oherwydd bod llai o barau'n ceisio nythu ar yr Ynys Las.

Gylfinir


Mewn cyferbyniad, mae niferoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol o ylfnirod yn gaeafu'n gyson ar ddau aber mwyaf Cymru, y Ddyfrdwy a'r Hafren. Mae'r nifer sy'n gaeafu wedi parhau'n sefydlog yn y degawdau diweddar. Mae'r rhan fwyaf o'r gylfinirot hyn wedi teithio o fannau magu mewn rhannau eraill o ogledd y DU.

Tueddiadau yn rhwydwaith yr AGA (a'r SDDGA)

Mae system rybudd ar lein yr Arolwg Adar Dŵr (WeBS) yn datblygu'n gyflym fel y lleoliad i ddod o hyd i dueddiadau ar safleoedd dynodedig ledled y DU. Yng Nghymru cynrychiolir pedair o'n Hardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn ein canlyniadau.




Blwyddyn



Blwyddyn

Mae gwyddau talcen-wyn sy'n gaeafu (chwith) wedi prinhau tra bod y nifer o ylfinirod (dde) yn sefydlog. Dangosir mynegeion poblogaeth fel pwyntiau a gysylltir gan wahanodau, ynghyd â thuethodiad wedi ei lyfnu.



Niferoedd adar dŵr gyda gwahanol Rybudd-WeBS ar bedair AGA aberol yng Nghymru

Newyddion am adar



Genevieve Leaper (rspb-images.com)

Aderyn drycin y graig



Gwylan goesddu

Niall Benvie (rspb-images.com)

Aderyn drycin y graig

Mae **aderyn drycin y graig** yn bwydo ar blancion, pysgod a gwastraff pysgodfeydd un ai ar wyneb y môr neu ychydig o dan yr wyneb. Yn adlewyrchu poblogaeth y DU, cynyddodd adar drycin y graig yng Nghymru hyd at ganol yr 1990au. Ers hynny mae poblogaeth Cymru wedi parhau'n sefydlog, mewn cyferbyniad i'r prinhad drwyddo draw yn y DU.

Gwylan goesddu


Prif fwyd yr **wylan goesddu** yw pysgod bach, fel llymriaid, sy'n cael eu dal ychydig o dan wyneb y dŵr. Yn 2006 cyrhaeddodd mynegai poblogaeth y DU ei bwynt isaf mewn 21 mlynedd o fonitro, 50% yn is na'i uchafbwynt ym 1992. Yng Nghymru roedd y tueddiad hwn yn gyffredinol sefydlog dros y cyfnod hwn.

Gwylog

Gan ei bod yn rhywogaeth sy'n plymio, mae'r **wylog** yn gallu gwneud yn fawr o ystod ehangach o rywogaethau a meintiau o bysgod na'r ddwy rywogaeth flaenorol. Er bod mynegai poblogaeth gwylogod y DU ar hyn o bryd ar uchafbwynt newydd, mae'r mynegai yng Nghymru wedi cynyddu ddwywaith yn gyflymach na'r mynegai yng ngweddill y DU ac mae'r raddfa newid ar ei chyflymaf ers 1996. Roedd llwyddiant nythu yn 2006 ar Ynys Sgomer (Sir Benfro) ar ei isaf erioed, a chredir erbyn hyn mai ysglyfaethu gan wylanod oedd yn gyfrifol am hyn yn hytrach na phrinder bwyd. Oherwydd bod adar môr yn byw'n hir, mae'n aml yn cymryd blynyddoedd o ddiffyg llwyddiant nythu cyn i boblogaethau brinhau.

Niferoedd adar môr a llwyddiant nythu

Mae Rhaglen Fonitro Adar Môr y JNCC yn darparu diweddariad blynyddol ar ffawd ein hadar môr o rwydwaith o safleoedd o amgylch arfordir Cymru. Yma rydym yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar dair rhywogaeth - **aderyn drycin y graig**, yr **wylan goesddu** a'r **wylog**. Ar hyn o bryd, mae hi'n ymddangos bod niferoedd y tair rhywogaeth drwyddo draw yn gwneud yn well yma nac yn y DU.



Arolwg Adar sy'n Nythu (Y BBS)



Coch y berllan

Sue Tranter (rspb-images.com)

I fyny ac i lawr neu'n aros yr un fath?



O'r 51 rhywogaeth a gofnodwyd ar gyfartaledd mewn digon o sgwariau i gael eu cynnwys yn yr Arolwg Adar sy'n Nythu, cynyddodd 17 a phrinhaodd naw yn sylweddol.



Michael Gore (rspb-images.com)

Rhywogaeth	% y newid 94-06	
Mwyalchen	39	*
Telor penddu	77	*
Titw tomos las	32	*
Coch y berllan	-42	*
Bwncath	-5	
Turtur dorchog	33	*
Brân dyddyn	30	*
Ji-binc	-6	
Siff-siaff	1	
Titw penddu	-28	*
Cog	-36	*
Gylfinir	-40	*
Llwyd y gwrych	38	*
Telor yr ardd	-24	
Dryw eurban	-40	*
Nico	25	
Cnocell fraith fwyaf	82	*
Titw mawr	55	*
Cnocell werdd	11	
Llinos werdd	26	*
Crëyr glas	-18	
Gwennol y bondo	95	*
Aderyn y to	107	*
Jac-y-do	19	
Sgrech y coed	33	
Llinos	-7	
Titw cynffon-hir	33	
Pioden	-8	
Hwyaaden wyllt	23	
Corhedydd y waun	3	
Brych y coed	2	
Delor y cnau	51	*
Siglen fraith	13	
Cigfran	13	
Tingoch	-2	
Robin goch	13	*
Ydfran	-24	
Ehedydd	-2	
Bronfraith	31	*
Drudwen	-51	*
Clochdar cerrig	287	*
Gwennol	73	*
Gwennol ddu	-31	*
Corhedydd y coed	-28	
Dringwr bach	40	
Tinwen y garn	10	
Llwydfron	-9	
Telor yr helyg	-22	*
Ysguthan	31	*
Dryw	3	
Bras melyn	-44	*

Cynhwysir rhywogaethau os ydynt yn bresennol mewn cymedr o 30 neu fwy o sgwariau 1 cilometr rhwng 1994 a 2006 mae * yn dangos newidiadau sy'n ystadebol arwyddocaol



Prinhad y gog

Gellir defnyddio tueddiadau'r BBS i archwilio'r rhesymau tebygol dros brinhad wrth gymharu rhywogaethau tebyg neu rhyng-ddibynnol. Er enghraifft, mae'r **gog** yn dodwy ei hwyau yn nythod adar eraill ac maent wedi prinhau'n sylweddol mewn amlder dros y tymor byr. Yn y DU mae prinhad **cogau** n cael ei adlewyrchu ym mhrinhad dau o'r prif rywogaethau lletyol (**corhedydd y waun** a **llwyd y gwrych**) a gellir cysylltu hyn gyda phrinhad y **gog** – fodd bynnag nid yw'r adar lletyol hyn wedi prinhau yng Nghymru. Gan fod y **gog** yn ymfudo o bellter maith, efallai bod amodau amgylcheddol yn ei hardaloedd gaeafu neu'n ystod ei hymfudiad wedi dirywio, gan leihau ei gallu i oroesi. Fodd bynnag, mae'r gog wedi cynyddu'n sylweddol yn yr Alban dros yr un cyfnod. Mae hyn i gyd yn awgrymu mai ffactorau eraill, megis prinder bwyd ar ffurf pryfed i'r oedolion, neu'r adar lletyol yn nythu'n gynt ac felly'n darparu llai o gyfle iddynt ddodwy wyau, a all fod yn peri'r prinhad.

A yw brain, piod a chigfran yn cynyddu?

Dywedir yn aml fod y **frân dyddyn**, y **bioden** a'r **gigfran** wedi cynyddu yn eu nifer. Mae tystiolaeth bod hyn wedi digwydd rhwng canol yr 1960au a chanol yr 1990au yng Nghymru a de orllewin Lloegr. Dengys mynegeion BBS nad yw **brain tyddyn** a **phiod** bellach yn cynyddu'n gyflym, er bod mynegai'r **gigfran** wedi bod yn uchel mewn rhai blynyddoedd. Nid yw arwyddocâd y tueddiadau hyn yn gyson gyda threigl amser. Roedd y prif gyfnod o gynnydd yn cyd-fynd â'r pwysau economaidd mwyaf i ddwysáu amaethyddiaeth.



Cog

Mark Hamblin (rspb-images.com)



Cigfran

Sue Tranter (rspb-images.com)

Arolygon rhywogaethau



Gylfinir

Roger Wilmshurst (rspb-images.com)

Gylfinirod sy'n magu - y boblogaeth yn cwmpo o fwy nag 80%

Wrth i RSPB Cymru ailadrodd arolwg sampl yn 2006 daeth yn amlwg nad oedd ond 1,099 pâr o **ylfinirod** (cyfwng hyder 95% 576-1755) ar ôl yng Nghymru, prinhad sylweddol o 81% ers 1993. Cafwyd colledion ym mhob rhanbarth ac ar bob uchder, sy'n awgrymu dylanwad prosesau tymor hir ar raddfa fawr megis newid amaethyddol ac amgylcheddol. Mae'r rhain yn cyfateb i raddau helaeth gyda chanlyniadau'r BBS sy'n dangos prinhad o 40%, er bod poblogaethau gaeafu'n ymddangos yn sefydlog. Dim ond mewn 14% o'r sgwariau lle'r oedd gylfinirod yn bresennol y cafwyd tystiolaeth o gywion yn deor: fe all llwyddiant magu isel egluro'r prinhad yn y nifer.

Ariannwyd gan Gronfa Her Rhywogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cwtiad aur - y boblogaeth sy'n magu yng Nghymru i lawr i 36 pâr

Yn 2007 ymgwymerwyd â'r arolwg llawn cyntaf o ardaloedd nythu presennol a hanesyddol y **cwtiad aur** a chafwyd hyd i gyfanswm o 36 pâr. Er nad oes modd cymharu hyn yn uniongyrchol gydag amcangyfrif poblogaeth flaenorol o rwng 213 a 214 pâr ar ganol yr 1970au, oherwydd y dull gwahanol o gynnal yr arolwg, mae'r 83% o brinhad a awgrymir yn cyfateb i ganlyniadau'r cadarnle ar yr Elenydd, sy'n dangos prinder o 88% ers 1982 gyda dim ond 11 pâr ar ôl.

Ariannwyd gan Gronfa Her Rhywogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru



Cwtiad aur

David Klaer (rspb-images.com)

Arolwg ehedydd y coed - tystiolaeth o fagu am y tro cyntaf ers 1991

Er bod **ehedyddion y coed** ar un adeg yn eithaf eang eu dosbarthiad ledled Cymru ni chafwyd cadarnhad eu bod wedi magu yng Nghymru ers yr 1980au cynnar. Gwelwyd y parau olaf yn Sir Faesyfed. Yn 2006, archwiliwyd safleoedd addas, llawer yn Ne Cymru, i weld a oedd ehedyddion y coed yn byw yno a chafwyd hyd i un pâr, a lwyddodd i fagu cywion.

Arolwg SCARABBS

David Kjaer (rspb-images.com)



Ehedydd y coed

Telor Dartford



Mike McKavett (rspb-images.com)

Arolwg o delor Dartford - o 0 i 72 tiriogaeth mewn 10 mlynedd...

Cafwyd tystiolaeth bod **telor Dartford**, un o'r ychydig o rywogaethau o delorion sy'n byw yn y DU, wedi magu am y tro cyntaf yng Nghymru ym 1998. Yn arolwg 2006, fel rhan o arolwg ledled y DU, cafwyd amcangyfrif o gyfanswm o 72 pâr tiriogaethol yng Nghymru, yn seiliedig ar 41 o diriogaethau y cafwyd hyd iddynt.

Sir Gaerfyrddin	10
Morgannwg	12
Gwent	4
Sir Benfro	15
Cyfanswm Cymru	41

Arolwg SCARABBS

Cronfa Her Rhywogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Mae'r gronfa hon wedi darparu adnoddau ar gyfer gwaith yn ymwneud â *Rhywogaethau o Brif Bwysigrwydd Bioamrywiaeth yng Nghymru*.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni monitro a ddisgrifir yma'n dibynnu llawer iawn ar arolygwyr adar gwirfoddol am eu llwyddiant. Fodd bynnag, wrth i adar brinhau, mae angen mwy a mwy o ymdrech arolygu i sicrhau canlyniadau dibynadwy ac mae angen mwy o arolygwyr bob amser. Cewch fanylion ynglyn â sut i gymryd rhan mewn arolygon adar ar wefannau'r cyrff sy'n bartneriaid a restrir y tu mewn i'r clawr blaen.

Ymchwil diweddar

Yn yr adran hon, cewch hanes rhywfaint o'r gwaith diweddaraf a gyflawnwyd i helpu adar Cymru. Er bod yma rywfaint o newydd da, mae yma hefyd dystiolaeth o effeithiau niweidiol presennol neu yn y dyfodol ar adar. Unwaith eto, mae yma enghreifftiau o sut mae rhai adar yn dibynnu ar amodau ffafriol y tu allan i Gymru er mwyn sicrhau ffyniant eu poblogaethau. Dengys y symbolau enghreifftiau o fonitro adar ac ymchwil, Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth a lle mae gwirfoddolwyr wedi helpu i sicrhau'r canlyniadau.



Monitro adar ac ymchwil



Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth



Gweithredu gan wirfoddolwyr

Gall conifferau masnachol fod yn dda i'r troellwr mawr

Mae'r **troellwr mawr** wedi cynyddu yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf. Cysylltir hyn yn bennaf gyda chonifferau masnachol; credir eu bod yn nythu ac yn chwilota am fwyd yn agos at leiniau mawr (oddeutu 2 ha) lle mae'r coed wedi eu cwmpo neu sydd â chanopi ifanc agored. Fodd bynnag, un o amcanion dogfen bolisi Coedlannau i Gymru Llywodraeth Cynulliad Cymru yw newid hanner tir y Comisiwn Coedwigaeth yn goedwigaeth gyda gorchudd parhaol dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cymryd lle lleiniau mawr gyda lleiniau llinellol neu â ffurf afreolaidd llawer llai ar gyfer pwrpasau esthetig, ac fe all olygu colli safleoedd nythu a chwilota am fwyd y **troellwr mawr**.

Mewn project diweddar a roddwyd ar waith gan Tony Cross a Jerry Lewis, a gefnogir yn ariannol gan Gronfa Her Rhywogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ymddiriedolaeth Fywyd Gwylt Brycheiniog a'r Comisiwn Coedwigaeth, defnyddiwyd tracio-radio i fesur detholiad safleoedd nythu, ymddygiad chwilota am fwyd a llwyddiant magu'r **troellwr mawr** yng nghanolbarth a de Cymru i helpu'r Comisiwn Coedwigaeth reoli planhigfeydd yn sensitif ar eu cyfer.

Ar gyfartaledd, dewis y troellwr mawr oedd nythu ar fannau gwastad mewn lleiniau

mawr lle'r oedd y coed wedi eu cwmpo (23 ha ar gyfartaledd, ystod 5-65) a oedd yn cynnwys coed ifanc a oedd yn cymryd lle'r hen goed (8 oed ar gyfartaledd, ystod 0-19). Roedd yr arwynebedd lleiaf a ddefnyddiwyd yn fwy na lleiniau a ddefnyddiwyd gan rai mathau o goedwigoedd gyda gorchudd parhaol. Fel arfer mae conifferau'n cael eu cwmpo ar ôl 50 mlynedd. Dengys tracio-radio bod y tiriogaethau'n amrywio o 28-35 ha mewn maint, a bod y chwilota am fwyd yn digwydd yn bennaf mewn lleiniau agored o fewn planhigfeydd. Roedd yr adar yn chwilota am fwyd yn agos at y nythod ar adeg darparu bwyd i'r cywion. Roedd llwyddiant nythu da yn y manau hyn o'u cymharu â rhostiroedd yr iseldir, gyda dwy nythaid yn cael eu magu gan barau sengl mewn ambell i achos.

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu y gallai coedwigaeth gyda gorchudd parhaol leihau argaeledd safleoedd nythu pe baent yn cael eu gweithredu yn ddiwahân. Fodd bynnag, mewn coedwigoedd lle mae'r **troellwr mawr** yn nythu, gall cyfyngu coedwigaeth gyda gorchudd parhaol i lethrau mwy serth gyfarfod targed Llywodraeth y Cynulliad heb beri colledion o ran safleoedd nythu'r **troellwr mawr**.

Ariannwyd gan Gronfa Her Rhywogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru



Troellwr mawr



Pibyddion coesgoch

Pibyddion coesgoch digartref Bae Caerdydd yn fwy tebygol o farw

Cyn yr ailddatblygu roedd Bae Caerdydd, cartref adeilad newydd y Senedd, hefyd yn gartref i adar y glannau yn ystod y gaeaf, yn cynnwys oddeutu 300 o **pibyddion coesgoch**. Ym mis Tachwedd 1999, caewyd bared ar draws y bae, a chollwyd y ponciau lleidiog rhyng-lanwol y tu ôl iddo o dan llyn o ddŵr croyw. Cwblhawyd astudiaeth gan y BTO, a ariannwyd yn rhannol gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chyngor Sir Caerdydd, i edrych ar sut roedd colli cynefin yn effeithio ar oroesiad adar.

I wneud hyn, am amryw o flynyddoedd cyn ac ar ôl cau'r bared, dalwyd pibyddion coesgoch yn rheolaidd yn y bae ei hun ac ar safleoedd 'rheoli' gerllaw gan fodrwywyr adar trwyddedig a gosodwyd modrwyau metel â rhif a modrwyau lliw ar eu coesau i'w hadnabod pe baent yn cael eu dal yn ddiweddarach, neu pe'ŷ gwelir mewn heidiau wrth glwydo. Gellir defnyddio data o ail-ddal adar wedi eu modrwyo ac wrth nodi adar gyda modrwyau lliw i fesur cyflwr y corff ar ôl eu dal a'u goroesiad dros y flwyddyn flaenorol.

Teithiodd y rhan fwyaf o'r **pibyddion coesgoch** a symudwyd o Fae Caerdydd i'r ponciau rhyng-lanwol yn Rhydymni gerllaw, er bod rhai wedi symud cyn belled â Chasnewydd, a Weston-super-Mare. Yn ystod y gaeaf cyntaf ar ôl cau'r bared, roedd cyflwr corfforol adar a symudwyd gryn dipyn yn is na chyflwr adar a oedd wedi gaeafu yn Rhydymni erioed, gan awgrymu eu bod yn cael trafferth dod o hyd i ddigon o fwyd yn eu safle gaeafu newydd. Ar ôl cau'r bared, cynyddodd marwolaeth flynyddol pibyddion coesgoch Bae Caerdydd o 44%. Mewn cymhariaeth, nid oedd gwahaniaeth yng ngoroesiad y pibyddion coesgoch a oedd wedi gaeafu yn Rhydymni erioed cyn ac wedi cau'r bared.

Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad oedd safle Rhydymni'n gallu cynnal yn llwyr yr adar a symudwyd o Fae Caerdydd yn dilyn ei golli fel cynefin. Oherwydd hyn, roedd 'ffitrwydd' ecolegol adar Bae Caerdydd wedi ei leihau, fel y gwelir yn eu hanhawster i ddarganfod digon o fwyd, a'u goroesiad is. Heb gynnydd yn y nifer o adar ifanc yn ymuno â'r boblogaeth, mae'n debygol bod hyn wedi arwain at ostyngiad ym mhoblogaeth y **pibyddion coesgoch** yn y rhan yma o Aber Hafren (mae pibyddion coesgoch o'r boblogaeth sy'n gaeafu yma'n magu mewn mannau eraill o fewn y DU ac yng Ngwlad yr Iâ).



Ymchwil diweddar



Môr-hwyaid

Mark Hamblin (fspb-images.com)

Mae'n bosibl bod ffermydd gwynt oddi ar y lan yn lleihau gallu'r fôr-hwyaid ddu i oroesi'r gaeaf

Ym Mae Lerpwl, mae un fferm wynt oddi ar y lan, North Hoyle, eisoes wedi ei hadeiladu, ac mae ardaloedd eraill wedi eu hagor i ddatblygiad lle mae dŵr bas yn golygu mai dyma'r manau mwyaf economaidd i godi tyrbinau. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd hyn hefyd yn bwysig i fôr-hwyaid duon sy'n gaeafu, gan fod yn well gan y rhain ddŵr bas i blymio i lawr at wely'r môr a dod o hyd i'w bwyd o gregyn pysgod. Mae'n bwysig deall sut fyddai ffermydd gwynt yn gallu aflonyddu ar yr adar a'u gyrru o'u hoff safleoedd bwydo, fel ei bod yn bosibl asesu ceisiadau cynllunio yn iawn.

Mewn cydweithrediad rhwng Prifysgolion Bangor a Dwyrain Anglia a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg a gwblhawyd yn 2006 ac a ariannwyd gan COWRIE, defnyddiwyd data ar amrywiaeth llanwol mewn dyfnder dŵr,


cyflenwadau o fwyd ar wely'r môr, anghenion bwyd môr-hwyaid, eu hymddygiad wrth chwilota am fwyd a'u sensitifrwydd i aflonyddwch (y pellter oddi wrth long a oedd yn agosáu atynt cyn iddynt hedfan i ffwrdd) er mwyn rhagweld ymateb môr-hwyaid i ffermydd gwynt newydd yn yr ardaloedd a glustnodwyd ar gyfer datblygiad. Cynhwyswyd y ffactorau hyn mewn model yn seiliedig ar ymddygiad i geisio cyfrifo goroesiad dros y gaeaf. I adar sy'n byw'n hir fel môr-hwyaid, gall hyd yn oed gostyngiad bach yn eu goroesiad beri prinhad sylweddol yn eu poblogaeth.

Os rhagdybir bod môr-hwyaid yn symud oddi wrth aflonyddwch o fewn 2 gilometr iddynt, cafwyd na fyddai presenoldeb ffermydd gwynt ym Manc Burbo, Gwastadeddau'r Rhyl a Gwynt-y-Môr yn ogystal â'r casgliad yn North Hoyle yn lleihau eu goroesiad. Fodd bynnag, pe bai fferm wynt hefyd yn cael ei hadeiladu yn Shell Flat, yna byddai eu gallu i oroesi'n gostwng yn sylweddol oherwydd ni fyddai'r adar yn gallu

darganfod digon o fwyd ar y gweddill o'r safleoedd bwydo lle nad oedd aflonyddu'n digwydd.

Mae'n anochel bod ansicrwydd ynglyn â rhai agweddau o ecoleg môr-hwyaid, megis sensitifrwydd heidiau i aflonyddwch ac a ydynt yn bwydo yn ystod y nos, yn troi'n rhywfaint o ansicrwydd ynglyn â'r canlyniadau. Mae angen ymchwil pellach i wella hyder yn rhagweliadau'r model.

Mewn cipolwg dros gyfnod o awr (isod) o'r model yn seiliedig ar ymddygiad y fôr-hwyaid ddu ym Mae Lerpwl, gwelir lle fyddai'r môr-hwyaid du'n cael eu cadw draw o gymryd bod heidiau'n cael eu heffeithio gan aflonyddwch gweithgareddau sy'n nes na 2 gilometr. Mae celloedd lle ceir aflonyddwch o fewn yr awr hon wedi eu lliwio: mae coch yn dangos ffermydd gwynt, oren yn dangos llwybr llongau mawr a melyn yn dangos hofrenyddion yn hedfan uwchben wrth deithio i rigiau archwilio am nwy. Mae'r ardaloedd yr effeithir arnynt gan y ffermydd gwynt wedi eu rhifo: gyda chaniatâd: North Hoyle (1), Gwastadedd y Rhyl (2), Banc Burbo (3), ac arfaethedig: Shell Flat (4) a Gwynt y Môr. Dengys dwyster y lliw glas beth yw dyfnder y dŵr yn ystod y cyfnod hwn o lanw a thrai. Mae celloedd yn llwyd os yw'r dŵr yn rhy ddwfn ar gyfer bwydo neu os nad oes bwyd ar wely'r môr.



Tracio huganod Ynys Gwales gyda lloeren

Er ei bod yn hawdd monitro a gwarchod nythfeydd o adar môr sy'n magu a'r amgylchedd o'u cwmpas rhag gweithgareddau niweidiol megis gorbysgota a llygredd, mae adar môr yn gallu teithio'n bell iawn i safleoedd bwydo da, ac fe all hyn gyd-fynd â nodweddion eigionogol sy'n ffafriol i'r pysgod sy'n bwydo arnynt, megis tymheredd y dŵr a lefelau maethion. Mae gwybod ym mhle mae adar môr yn bwydo a pham eu bod yn dewis y manau hyn cyn bwysiced â'i gilydd er mwyn gwarchod eu poblogaethau, er yn llawer mwy anodd yn dechnolegol.

Mae niferoedd o **huganod** sy'n bwysig yn rhyngwladol yn nythu ar Ynys Gwales, un o nynsoedd adar môr Sir Benfro, ac oddi yma maent yn gallu cyrraedd dyfroedd eang gyda'r glannau neu ardaloedd eigionol dyfnach. Yn 2006, gosododd tîm o'r Ganolfan Ymchwil Bioleg Morol ac Ecoleg ym Mhrifysgol Plymouth drosglwydyddion lloeren ar 24 hugan er mwyn dilyn eu symudiadau yn ystod teithiau i gasglu bwyd i'w cywion. Dengys y canlyniadau nad oedd yr un ohonynt yn bwydo ym Môr yr Iwerddon. Yn hytrach, aeth y cwbl tua'r de a'r gorllewin i ddyfroedd yr Atlantig, gan deithio hyd at 800 cilometr mewn un daith yn unig. Dengys bwyd a gyfogyd gan **huganod** eraill yn yr un nythfa eu bod yn dal pysgod sy'n byw ar yr wyneb, megis mecryll a chornbigau, yn ogystal â physgod sy'n byw ar waelod y môr fel hadogiaid a gafwyd mae'n debyg ar ffurf gweddillion pysgod a daflwyd i'r môr oddi ar gychod pysgota.

Mae'r canlyniadau'n cael eu cyfuno gyda data arall ar blancion a deiet i egluro pam fod y dyfroedd hyn gyda'r glannau yn darparu'r manau bwydo gorau.



Hugan



Ymchwil diweddar




Peter Cairns (fspb-images.com)

Gweilch y pysgod

Mae'n well gan weilch y pysgod Glaslyn fwyd môr

Nythodd **gweilch y pysgod** am y tro cyntaf yng Nghymru yn 2004, ac maent wedi llwyddo i fagu cywion yn y blynyddoedd wedi hynny. Mae safle'r



Roedd **gweilch y pysgod** Glaslyn yn dod â mathau gwahanol o bysgod i'r nyth wrth ddychwelyd o wahanol gyfeiriadau

nyth nepell o Borthmadog wedi ei atgyfnerthu ar ôl iddo gwmpo mewn tywydd drwg yn 2004. Mae croeso i'r **gwalch y pysgod** ddod i nythu yng Nghymru ac mae'r safle'n parhau i gael ei warchod 24-awr y dydd yn ystod y cyfnod gori er mwyn ei warchod rhag casglwyr wyau.

Pan ddaeth y **gweilch y pysgod** i nythu am y tro cyntaf i Gymru, mynegwyd rhai pryderon ynglyn â'u heffaith yn lleol ar fuddion pysgota masnachol, yn enwedig pysgodfeydd brithyll. Fel rhan o'r gwaith o adfer y nyth, gosodwyd camera'n edrych i lawr arno i ddarparu lluniau byw ar gyfer man gwyllo i'r cyhoedd, a chyflwynwyd cyfle hefyd felly i astudio bwyd y gweilch y pysgod mewn manylder. Gwnaed hyn ar ffurf project MSc yn Ysgol Gwyddorau Biolegol Prifysgol Bangor, gyda chymorth gwirfoddolwyr.

Dros dymor nythu 2006, cludwyd oddeutu 200 o bysgod yn ôl i'r nyth gan y ceiliog, o bump rhywogaeth wahanol. Oherwydd bod y pysgod yn byw mewn

gwahanol gynefinoedd, dengys y deiet hwn bod y **gwalch y pysgod** yn hela uwchben dyfroedd hallt yr arfordir a dyfroedd croyw mewndirol. Adlewyrchwyd hyn wrth nodi o ba gyfeiriad y deuai'r ceiliog yn ôl i'r nyth gyda physgodyn. Cludwyd y physgodyn mwyaf cyffredin a ddaliwyd, yr hyrddyn llwyd (50%), o gyfeiriad y de, ac mae'n debyg eu bod yn cael eu dal yng ngheg afonydd llanwol y Glaslyn a'r Dwyryd. Mewn cyferbyniad cludwyd yr ail bysgodyn mwyaf cyffredin, y brithyll (25%), o gyfeiriad y dwyrain, lle lleolir amryw o lynnoedd yr ucheldir. Mae rhai brithyll yn cael eu rhyddhau ar gyfer pysgota masnachol ac felly roedd y rhain ar gael i'r **gwalch y pysgod**. Fodd bynnag, mae maint cymharol fechan y brithyllod a gludwyd i'r nyth yn awgrymu yn hytrach bod yr aderyn yn hela pysgod gwyllt. Dim ond 12% o ddeiet teuluol y **gwalch y pysgod** a luniwyd gan frithyll seithliw wedi eu rhyddhau. Y pysgod eraill a gludwyd yn ôl i'r nyth oedd siwll (10%) a physgodyn rhudd (3%).





Mike Lane (rspb-images.com)

Edrych ymlaen at 2008

Cychwynnwyd ar **y gwaith maes ar gyfer Atlas Adar yn Magu Gogledd Cymru** ym mis Ebrill 2008 a bydd yn parhau am bedair blynedd. Bydd yr Atlas yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Y Fflint, Gwynedd a Wrecsam a bydd yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri gyfan. Dyma'r asesiad systematig cyntaf o adar yn magu ledled Gogledd Cymru a bydd yn digwydd o fewn 1,793 tetrad. Bydd yn cyd-redeg ag Atlas Adar y DU 2007-11 ac yn defnyddio'r un dulliau.

Manylion ar gael ar:

www.northwalesbirdatlas.co.uk

I weld y cynnydd a'r canlyniadau o lunio atlas ar gyfer adar sy'n magu ac yn gaeafu ledled Cymru (a gweddill y DU a'r Iwerddon) gweler

www.birdatlas.net



Geoff Simpson (rspb-images.com)


SCARABBS ac arolygon eraill

Mae arolwg 1993 o'r **gwalch bach** yn y DU yn cael ei ailadrodd yn 2008. Mae arolygon o **linosiaid y mynydd** a **breision yr** wâd hefyd ar waith.

Daw ein gwybodaeth am sefyllfa adar yng Nghymru o ganlyniad i ymdrechion rhagorol gwirfoddolwyr sy'n cydweithio gydag Ymddiriedolaeth Adara Prydain (y BTO), y rhwydwaith cofnodi adar sirol, yr RSPB, Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru, Cymdeithas Adara Cymru a'r Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir. Os ydych chi'n un o'r gwirfoddolwyr hyn, diolch o galon i chi. Os ydych yn ystyried helpu adar Cymru, rydym angen mwy o wirfoddolwyr bob amser. Cysylltwch â'r corff priodol os gwelwch yn dda (mae eu manylion ar dudalen olaf yr adroddiad hwn) os hoffech gymryd rhan mewn unrhyw arolygon neu gyfrannu unrhyw gofnodion. Diolchwn hefyd i'r tîrfeddianwyr a'u hasiantaethau, tenantiaid a staff sydd wedi rhoi caniatâd i arolygwyr ymweld â'u tir i gyfrif adar.

Angen gwybod mwy am arolygon yng Nghymru?

Mae arolygon adar ac ymchwil yn hanfodol er mwyn mesur cynnydd tuag at dargedau. Er ei fod yn dal i ddibynnu llawer ar wylwyr adar gwirfoddol ledled y wlad, mae cyfrif adar wedi esblygu dros y degawdau diwethaf i weithgaredd hynod o wyddonol. Mae nifer o gynlluniau wedi datblygu, pob un yn ymdrin â mathau gwahanol o adar yn ystod gwahanol gyfnodau eu hoes. Yn *Sefyllfa Adar yng Nghymru* ni allwn ond adrodd ar rai o'r canlyniadau mwyaf difyr o ganlyniad i arolygon neu ymchwil. Yn yr adran hon rydym yn disgrifio'r monitro blynyddol neu reolaidd sy'n digwydd yng Nghymru a lle ceir manylion llawn am ganlyniadau'r arolwg neu ymchwil sy'n berthnasol i Gymru.



Asiantaethau Cadwraeth Statudol a Chynllun Blynyddol Adar sy'n Nythu yr RSPB (SCARABBS).

Mae rhaglen o arolygon ledled y DU o rywogaethau â blaenoriaeth sy'n nythu wedi ei sefydlu o dan yr Asiantaethau Cadwraeth Statudol a Chynllun Blynyddol Adar sy'n Nythu yr RSPB (SCARABBS). O fewn y rhaglen hon, sefydlwyd amserlen o arolygon ar gyfer y rhywogaethau â blaenoriaeth hyd 2018.

Cyhoeddir canlyniadau ar gyfer Cymru yn *Welsh Birds* a chyhoeddir adroddiad llawn y DU fel arfer yn *Bird Study*.

Adroddiadau diweddaraf

DU

Sim IMW, Dillon IA, Eaton MA, Etheridge B, Lindley P, Riley H, Saunders R, Sharpe, Tickner M 2007. Statws y Boda Tinwyn *Circus cyaneus* yn y DU ac Ynys Manaw yn 2004, a chymharfaeth gydag arolygon 1988/89 ac 1998. *Bird Study* Cyfrol 54 Rhif 2, Gorffennaf 2007. Ymddiriedolaeth Adara Prydain. Thetford.

Conway G, Wotton S, Henderson I, Langston R, Drewitt A, Currie F. 2007. Statws a dosbarthiad y Troellwr Mawr Ewropeaidd *Caprimulgus europaeus* yn y DU yn 2004. *Bird Study* Cyfrol 54. Rhif 1 Mawrth 2007, Ymddiriedolaeth Adara Prydain. Thetford.

Cymru

Wotton S a Conway G. 2008. Arolygon Ehedydd y Coed a Thelord Dartford yng Nghymru yn 2006. *Welsh Birds* Cyfrol 5 rhif 8, Gorffennaf 2008. Cymdeithas Adara Cymru.

Arolwg Adar sy'n Nythu (BBS)

Dechreuodd yr arolwg cyffredinol hwn o adar eang eu dosbarthiad y DU ym 1994 ac fe'i cynlluniwyd i fesur sut mae mynegai amllder yn newid dros gyfnod o amser, yn hytrach na maint y boblogaeth. Dim ond y rhywogaethau hynny a gofnodwyd mewn digon o sgwariau sy'n cael eu cynnwys ac nid yw llawer o rywogaethau'n cael eu trafod yng Nghymru. Gellir defnyddio canlyniadau'r BBS hefyd i asesu newidiadau mewn dosbarthiad (yn seiliedig ar y canran o sgwariau 1 cilometr lle mae'r aderyn yn byw). Cynhyrchir adroddiad BBS bob blwyddyn sy'n darparu manylion tueddiadau poblogaeth yn y DU, Lloegr, Cymru a'r Alban.



Adroddiad: *The Breeding Bird Survey 2006*


Ar gael ar:

www.bto.org/bbs/results/bbsreport.htm

Atlasau Adar

Gall arolygon ddweud wrthym hefyd beth yw dosbarthiad daearyddol gwahanol rywogaethau ac wrth eu hailadrodd gellir asesu newidiadau mewn dosbarthiad. Yr arolygon mwyaf cynhwysfawr o'r math yma yw Atlasau adar y DU sydd, oherwydd faint o waith sydd ei angen, yn digwydd yn achlysurol yn unig - yr olaf rhwng 1988 ac 1991. Mae atlasau lleol eraill, is-sirol fel arfer, wedi eu cwblhau mewn manylder ar gyfer rhai rhannau o Gymru ac maent yn darparu gwybodaeth fwy lleol fel arfer ar lefel tetrad (sgwariau 2





x 2 cilometr). Cychwynnodd y gwaith maes ar gyfer atlas adar nesaf y DU, sy'n trafod adar sy'n gaeafu ac yn magu, yn 2007/08. Am y newyddion diweddaraf am gynnydd ac adroddiadau dros dro am gyfrif rhywogaethau gweler www.birdatlas.net

Cychwynnodd Atlas Adar sy'n Magu Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2008 a bydd ar waith am bedair blynedd. Bydd yr atlas yn ymdrin ag ardaloedd Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Y Fflint, Gwynedd a Wrecsam a bydd yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri i gyd. Dyma'r asesiad systematig cyntaf o adar sy'n magu ledled Gogledd Cymru a bydd yn digwydd o fewn 1,793 tetrad. Bydd yn cyd-redeg ag Atlas Adar y DU 2007-2011 ac yn defnyddio'r un dulliau. Manylion ar gael oddi wrth: www.northwalesbirdatlas.co.uk

Arolwg Adar Gwlyptir (WeBS)

Mae rhydwyr, hwyaid, gwyddau ac adar dŵr eraill yn cael eu cyfrif ar benllanw ar aberoedd Cymru fel rhan o arolwg ledled y DU. Defnyddir y data yma i fonitro sut mae amllder yn newid gyda threigl amser, ac i amlygu pryder pan fo niferoedd rhanbarthol, neu niferoedd mewn ardaloedd pwysig a warchodir wedi prnhau'n sylweddol. Cwblheir cyfrifiadau llanw isel

ychwanegol ar rai aberoedd. Cynhyrchir arolwg WeBS bob blwyddyn.

Gweler www.bto.org/webs

Waterbirds in the UK 2005/06: The Wetland Bird Survey.

BTO/WWT/RSPB/JNCC, Thetford. Ar gael o: www.bto.org/webs

Rhaglen Fonitro Adar Môr

Ers 1986 mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (y JNCC) wedi cydlyn Rhaglen Fonitro Adar Môr ledled y DU. Mae sampl o safleoedd Cymreig yn cael eu cynnwys yn y rhaglen hon.


Adroddiad: Niferoedd adar môr a llwyddiant magu ym Mhrydain a'r Iwerddon 2007

Ar gael o: www.jncc.gov.uk/publication

Ffynonellau eraill o wybodaeth sy'n berthnasol i Sefyllfa Adar yng Nghymru 2006 a 2007

Adroddiad Adar Cymru

Mae'r adroddiad hwn a gynhyrchir yn flynyddol gan Gymdeithas Adara Cymru yn darparu crynodeb (ar ffurf rhestr systematig) o'r cofnodion pwysicaf a gyhoeddir mewn Adroddiadau Adar Sirol unigol.



Adroddiad: Adroddiad Adar Cymru
Ar gael o: www.welshos.org.uk

Adar Cymru

Cynhyrchir *Welsh Birds*, cyhoeddiad Cymdeithas Adara Cymru, ddwywaith y flwyddyn ym mis Mehefin a mis Rhagfyr. Mae'n adrodd ar arolygon ac ymchwil ar lefel genedlaethol yn ogystal â rhai mwy lleol. Mae'r cyhoeddiad hefyd yn adrodd ar agweddau diddorol o ymddygiad adar, materion sy'n effeithio ar adar a gweithgaredd adaryddol yn gyffredinol ar ffurf nodiadau bychain. Mae rhifyn mis Rhagfyr yn ymdrin yn bennaf ag Adroddiad Adar Cymru a'r adroddiad blynyddol ar Fodurwyo Adar yng Nghymru.

Welsh Birds Ar gael o:

www.welshos.org.uk

Adroddiadau Adar Sirol

Mae'r adroddiadau hyn a gynhyrchir gan Glybiau Adar Lleol Cymru'n darparu gwybodaeth fanwl ar adar a gofnodwyd (ar ffurf rhestr systematig) yn ogystal â phapurau ychwanegol sy'n berthnasol i adar yr ardal leol. Cyhoeddir crynodeb o'r cofnodion adar yn Adroddiad Adar Cymru (gweler uchod)

Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru (GAAYC)

Yn cyhoeddi gwybodaeth ar niferoedd a thueddiadau adar ysglyfaethus yng Nghymru

Adroddiad: 2004 Ddim ar gael yn gyhoeddus.

Mae Sefyllfa Adar yng Nghymru 5 yn gyhoeddiad ar y cyd gan:



Pencadlys RSPB Cymru

T? Sutherland, Pont y Castell, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen, Caerdydd CF11 9AB

www.rspb.org.uk/wales



Cymdeithas Adara Cymru

Derek Moore, Rowan House, Heol y Gors, Salem, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 7YL

www.welshornithologicalsociety.org.uk



Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Maes y Ffynnon, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd LL57 2DN

www.ccw.gov.uk



Y BTO

The Nunnery, Thetford, Norfolk IP24 2PU

www.bto.org



Ymddiriedolaeth Adar D?r a Gwlyptir

Canolfan Gwlyptir Cenedlaethol Cymru, Penclacwydd, Llwynhendy, Llanelli SA14 9SH

www.wwt.org.uk

Ariennir Sefyllfa Adar yng Nghymru 5 gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.